CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

08456 000 813

Sicrhau'r allbwn bîff mwyaf oddi ar laswellt

Pesgi Ŵyn

Porfa ddyddiol o safon uchel yn sicrhau'r potensial tyfu gorau i ŵyn

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFLWYNIAD

Gethin Prys Davies, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Pan soniodd Alwyn Phillips, un o ffermwyr ffocws Cyswllt Ffermio wrthyf am y dull 'saeth i'r tywyllwch' o roi hwrdd potel i ddefaid yn Sgandinafia, roeddwn yn teimlo ei fod yn rhywbeth allai fod o fudd i ffermwyr defaid yng Nghymru. Yn Sgandinafia, maent yn defnyddio semen wedi ei rewi i gyfebu defaid gan ddefnyddio gwn AI – yn debyg i'r ffordd y mae gwartheg yn cael eu cyfloi yn y wlad hon.

Dair blynedd yn ddiweddarach, ganed ŵyn yn Llysfasi y gwanwyn yma gan ddefnyddio techneg debyg i'r un a ddefnyddir yn Sgandinafia.

Mis Medi diwethaf, dewiswyd 50 o famogiaid Cymreig o oedrannau gwahanol fel rhan o'r prosiect, gan ddefnyddio semen o hwrdd Texel a gynhyrchwyd yma yn ogystal â semen hwrdd Gwyn Norwy, er mwyn cymharu'r ddau.

Yn Sgandinafia, maent yn defnyddio hwrdd diffrwyth i ddynodi defaid sy'n gofyn hwrdd, ac maent yn cael eu cyfebu dros gyfnod o amser. Roeddwn yn gweld hyn yn waith beichus, ac yn annhebygol o fod yn ddewis ymarferol i ffermwyr yng Nghymru. Felly, fe wnaethom gyd-amseru'r mamogiaid i gyd a rhoi AI iddynt mewn cyfnod cymharol fyr o dair awr.

Wedyn, ar ôl 14 diwrnod, cyflwynwyd hwrdd ffrwythlon i gyfebu'r rhai nad oedd wedi cymryd yr AI.

Oherwydd natur flaengar y prosiect, roedd yn anodd gwybod beth allai'r canlyniadau fod. Roeddwn yn amcangyfrif y byddai cyfradd lwyddiant o 50% yn cystadlu yn dda ag AI laparasgopig, ond y prif bryder oedd a fyddai yn gweithio o gwbl, a thrwy hynny, efallai, ein gadael â dim byd i weithio arno.

Er ein siom, dim ond 10% o'r mamogiaid oedd wedi cymryd yr AI y tro hwn. O ddadansoddi'r data, mae'n debygol bod yr amseru wedi ein gadael i lawr. Y bwriad gwreiddiol oedd cychwyn yr AI 55 awr ar ôl eu trin â Serwm Gonadotropin Cesyg Cyfeb (PMSG), ond gan fod nifer o'r mamogiaid wedi cael eu marcio gan yr hwrdd diffrwyth ar ôl 48 awr, cychwynnodd y gwaith 3 awr ynghynt; roedd 4 allan o'r 5 o'r mamogiaid a gymerodd yr AI wedi eu cyfebu rhwng 52-53 awr.

Felly, eleni, byddwn yn addasu'r amseru ac yn newid ychydig o bethau eraill gyda'r nod o ddatblygu'r dechneg i bwynt lle bydd yn ddewis cost effeithiol i ffermwyr Cymru er mwyn gallu defnyddio'r genynnau gorau o unrhyw le yn y byd.

Cyflawnodd Alwyn raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio yn 2016, a thrwy hynny fe dderbyniodd y cyllid i ymweld â Sgandinafia er mwyn darganfod mwy am y pwnc hwn.

Defnyddio technoleg i ragweld afiechydon y cyfnod lloea trwy ymddygiad buchod sych

Fferm Hardwick - Cyflwyniad i'r Prosiect
Imogen Ward, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio

Mae diddordeb mawr yn y diwydiant llaeth mewn dod o hyd i ffyrdd i wella'r modd y mae afiechydon yn cael eu canfod yn gynnar. Gall anhwylderau iechyd gael effaith fawr ar broffidioldeb buches laeth. Gall afiechydon gael effaith ar effeithlonrwydd cynhyrchu mewn tair prif ffordd: trwy leihau'r cynhyrchiant llaeth, gwaethygu'r perfformiad atgenhedlu, a thrwy fyrhau disgwyliadau oes buwch laeth trwy gynnydd yn y cyfraddau gwaredu. Mae canfod buchod gwael yn elfen allweddol o unrhyw raglen iechyd i fuches laeth. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo (sy'n cael ei ddiffinio fel arfer fel y cyfnod o dair wythnos cyn lloea i dair wythnos ar ôl hynny) mae buchod llaeth yn agored iawn i afiechydon metabolig a heintus; felly, mae canfod yr afiechyd yn fuan yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn. Nod y prosiect hwn yw gweld a all ymddygiad buwch wrth fwyta ac yn gyffredinol a aseswyd trwy ddefnyddio technoleg arwyneb porthiant Genus ragweld afiechyd cyn lloea a thrwy hynny wella'r nifer o fuchod cyflo ar 100 diwrnod ar ôl lloea.

Bydd y prosiect hwn yn ymchwilio a ellir rhagweld afiechydon y cyfnod lloea trwy fonitro ymddygiad buchod sych gyda'r nod o wella cyfraddau ffrwythlondeb 100 diwrnod. Mae'r 'Genus Breeder Tag' yn casglu data arwyneb porthiant trwy fonitro ymddygiad y fuwch wrth fwyta. Gall y dechnoleg asesu pa mor hir y mae'r fuwch yn gorwedd, sawl gwaith y bydd yn bwyta ac am faint o amser. Dylai'r data byw yma nodi unrhyw newidiadau mewn ymddygiad er mwyn gallu ymateb yn gyflymach i ymdrin ag unrhyw broblemau yn gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r dechnoleg yma yn gymharol newydd yn y Deyrnas Unedig, a Fferm Hardwick fydd y gyntaf yn Ne Cymru i'w defnyddio.

Er mwyn cael y diweddaraf am ddatblygiad y prosiect, ewch i wefan Cyswllt Ffermio

Porfa ddyddiol o safon uchel yn sicrhau'r potensial tyfu gorau i ŵyn

Mae cynhyrchiant mentrau defaid Cymru yn dibynnu ar weld yr ŵyn yn cyrraedd eu potensial llawn o ran twf, ac mae'r cyfan yn dechrau hefo'r pridd, dywed yr ymgynghorydd defaid annibynnol John Vipond.

Er mwyn tyfu glaswellt yn dda, rhaid i'r pridd fod â **pH o 6-6.5** ac, i annog meillion, ffosffad ar fynegai 2, ond mae priddoedd y rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru ymhell dan y lefelau hyn. Dywed Mr Vipond mai'r cam cyntaf i sicrhau'r cynhyrchiant gorau yw profi'r pridd (bob tair blynedd i dir silwair a phob pum mlynedd i borfa) a gweithredu ar y canlyniadau.

Y cam nesaf yw defnyddio potensial y glaswellt yn llawn trwy reoli'r pori yn dda, dywed Mr Vipond, a fydd yn cynghori ffermwyr ar sut i reoli ŵyn sy'n tyfu mewn cyfres o gyfarfodydd Cyswllt Ffermio ym mis Mai.

Ieuengaf yn y byd fydd yr oen, uchaf yn y byd fydd eu twf dyddiol posibl, felly sicrhewch bod y famog yn cynhyrchu cymaint o laeth â phosibl a bod yr oen yn cael tyfu cymaint â phosibl tra bydd hefo'r famog.

"Wrth gynhyrchu ŵyn, rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch incwm yn y 100 niwrnod cyntaf ac i gyflawni hynny, mae ar ddiadelloedd angen glaswellt bob dydd," dywedodd Mr Vipond.

Hyd nes bydd yr ŵyn yn gallu ymdopi â her cymysgu gydag ŵyn hŷn neu iau, mae'n argymell stocio mewn grwpiau o hyd at 120.

"Wrth i'r glaswellt ddechrau tyfu mewn rhan arall, symudwch nhw yn gyflym i reoli uchder y glaswellt. Gall pori cylchdro o gwmpas nifer o gaeau helpu, gan gymryd un neu ddau allan i'w cadw o bosibl," dywedodd. Pan fydd yr ŵyn yn cael eu brechu yn 4-6 wythnos oed, defnyddiwch y cyfnod hwn i 'gymysgu' grwpiau, gan sicrhau eu bod yn arfer cael eu gwahanu a dod o hyd i'w gilydd eto. Gall y grwpiau gael eu cyfuno ddiwrnod neu ddau yn ddiweddarach i greu grwpiau o 350-450 o ŵyn, dywedodd Mr Vipond.

Er mwyn cynnal ansawdd y borfa, mae'n awgrymu pori yn galed ym mis Mai (i 4cm) i wella ansawdd y glaswellt ym mis Gorffennaf.

"Os gellir cyflawni hyn tra bydd yr ŵyn yn 4-6 wythnos oed, ni fydd yn amharu ar eu twf gan eu bod yn gallu dibynnu ar laeth eu mamau," esboniodd Mr Vipond.

Ar ôl mis Mai, pan fydd efeilliaid yn bwyta llawer iawn o borthiant, maent yn cynyddu eu pwysau yn gyflymach os na fydd y borfa yn mynd yn llai na 6cm. Mae'r glaswellt yn cynnwys mwy o ddeunydd o ansawdd salach ar y cyfnod hwn ond anelwch at system bori cylchdro yng nghanol haf sydd yn anfon mamogiaid ac ŵyn i gaeau pan fydd y glaswellt yn 10-12cm a'u gadael pan fydd y glaswellt yn 6-7cm.

Mae'r cylchdro nodweddiadol yn cynnwys 3-7 diwrnod o bori ac yna gorffwys am 2-3 wythnos.

Mae **glaswellt o safon uchel** yn borthiant gwerthfawr ac felly hefyd feillion coch, yn cael ei dyfu ar y cyd â rhygwellt i gynhyrchu silwair o safon uchel, gydar ail-dyfiant yn ddelfrydol i besgi 60 o ŵyn i'r hectar.

Yn ychwanegol, bydd sefydlu cnwd porthiant yn ymestyn hyd yr amser y mae porthiant o safon uchel ar gael.

Ystyriwch **rêp, cêl, maip** neu **brassica hybrid** gan eu bod yn cynnig y maethiad delfrydol i besgi ŵyn ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Mae cnydau brassica hefyd yn rhoi'r amgylchedd perffaith i ail-hadu glaswellt, meddai Mr Vipond.

"Mae'r da byw yn rhoi maetholion yn ôl ar y safle ar ffurf tail ac wrin ac yn torri'r pridd gyda'u traed."

Rhaid **rheoli llyngyr yn dda** mewn ŵyn iddynt gyrraedd eu potensial o ran twf, felly cadwch olwg a rhoi dos os bydd angen, er mwyn rheoli cyn i golledion o ran cynhyrchiant ddigwydd. Efallai na fydd angen rhoi dos os bydd llyngyr yn cael eu rheoli'n dda ar y fferm, dywedodd Mr Vipond. "Cred llawer o ffermwyr y bydd dosio yn cael gwared ar yr her, ond ni fydd, ar canlyniad fydd ŵyn ysgafnach," dywedodd.

"Mae porfa lân yn llawer gwell na derbyn her gan lyngyr."



WYNNE, JOHN VIPOND, LEWIS A DEWI (GLUDY ISAF, ABERHONDDU)

A allwch chi ragweld y cynnyrch glaswellt yng Nghymru trwy ddefnyddio lloerennau?

Dr William Stiles - IBERS, Prifysgol Aberystwyth

Mae glaswellt yn gnwd hanfodol ar gyfer systemau cynhyrchu da byw, ond nid yw tua hanner y glaswellt a dyfir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yn effeithlon. Gall effeithlonrwydd busnesau fferm, a thrwy hynny incwm, gael eu gwella yn fawr trwy deilwra'r mewnbwn adnoddau fel gwrtaith. Ond, mae gwneud y defnydd gorau o fewnbynnau yn gofyn am ddatblygu gwell rhagolygon o dwf glaswellt a'i gynnyrch, i gynyddu'r manylder wrth eu chwalu. Felly, mae gwella'r gallu i ragweld cynnyrch glaswellt yn strategaeth reoli allweddol i systemau da byw ar laswelltir yng Nghymru. Gallai hyn wella gallu busnesau fferm yng Nghymru i ragweld adnoddau ac allbwn posibl y busnes am y flwyddyn sydd i ddod, gan wella effeithlonrwydd y busnes.

Mae'r dulliau presennol o fesur cynnyrch glaswellt yn cymryd amser ac yn drwm o ran llafur. Yn nodweddiadol, maent yn dibynnu ar fesuriadau yn y cae gyda mesurydd plât i gymryd darlleniadau a chyfrifo'r tyfiant. Mae datblygiadau diweddar o ran argaeledd arsylwi optegol cyson, yn benodol argaeledd data optegol a radar o loerennau yn aml, wedi cael ei ddynodi fel ffynhonnell wybodaeth bosibl i asesu a monitro twf glaswellt.

Gallai defnyddio dulliau synhwyro o bell, fel data lloeren, wella'r dulliau rheoli glaswelltir presennol trwy gynnig dull sy'n gyflym, yn gofyn am ychydig iawn o waith, ac a allai gynnig dealltwriaeth barhaus o dwf planhigion trwy gydol y tymor.

Mae lloerennau yn gallu casglu gwybodaeth am arwyneb Y Ddaear trwy fesur pelydriad electromagnetig sy'n cael ei adlewyrchu gan Y Ddaear o'r haul, neu trwy ollwng ynni yn weithredol, fel tonnau sain (h.y. RADAR), er mwyn mesur nodweddion gwrthrychau. Mae hyn yn gweithio trwy fesur y gwahaniaeth mewn amser rhwng anfon y signal a phryd y bydd yn dychwelyd. Gellir defnyddio'r ddau ddull hwn i esbonio amrywiadau mewn llystyfiant, ond o ran data RADAR, gall uchder y glaswellt gael ei bennu yn weithredol. Gall y data hwn wedyn gael ei drosi yn ffigwr ystyrlon, fel kilogramau o gynnwys sych i bob hectar, sy'n golygu y gellir ei ddefnyddio i fonitro a mesur cyfraddau tyfu glaswellt o bell, heb orfod camu i'r cae o gwbl.

Er mwyn deall potensial y dull hwn, bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal prosiect sy'n cymharu data lloeren a gofnodwyd dros y tair blynedd diwethaf gyda data tyfiant glaswellt a gasglwyd gan Brosiect Porfa Cymru, a oedd yn rhedeg rhwng 2016 a 2018.

Bydd cyfateb y ddwy set yma o ddata yn gadael i wyddonwyr yn IBERS ddatblygu model calibradu neu ragweld. Bydd hyn yn golygu y bydd data lloeren a gafwyd o bell yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i greu rhagolygon ar gyfer cynnyrch glaswellt glaswelltir yng Nghymru. Bydd y model fydd yn deillio o hynny ar gael i ffermwyr yng Nghymru i wella'r potensial i reoli glaswelltir yn effeithiol.



DEFNYDDIO CNWD CYFAN I WELLA ANSAWDD PORTHIANT A DYFIR GARTREF

Sarah Hughes, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Tyfir cnwd cyfan gan lawer o ffermwyr llaeth a da byw ar hyn o bryd fel ffordd o roi hwb i'r silwair os nad yw tyfu india corn yn opsiwn.

Gellir tyfu cnwd cyfan gan ddefnyddio amrywiaeth o rawn: gall fod yn fwy dibynadwy mewn ardaloedd sydd heb arfer tyfu india corn; mae hyblygrwydd o ran dyddiadau cynaeafu; gall weithio yn dda mewn cylchdro; gall wella iechyd y rwmen a gall fod yn ffordd o roi hwb i silwair a hau glaswellt oddi tano.

I ffermwyr sy'n cadw defaid, mae tyfu cnwd cyfan gwanwyn yn ddewis da pan fydd angen y caeau ar gyfer defaid ar y fferm yn y gwanwyn cynnar. Bydd y prosiect Cyswllt Ffermio yn Nyffryn Cothi, Caerfyrddin yn edrych ar dyfu barlys gwanwyn cnwd cyfan gyda rhygwellt tymor hir wedi ei hau oddi tano.

Bydd y silwair cnwd cyfan yn cael ei ddadansoddi o ran ei ansawdd a'i gynnwys sych mewn cymhariaeth â'r cae cyfagos lle mae silwair toriad cyntaf yn cael ei dyfu. Byddwn yn cymharu'r holl gostau o sefydlu i gynaeafu'r cnwd cyfan mewn cymhariaeth â'r gwndwn tymor hir gerllaw. Nod y ffermwr yw ceisio lleihau faint o borthiant y mae'n ei brynu i mewn ac mae'n rhoi cynnig ar gnwd cyfan i weld a yw hyn yn un o'r ffyrdd i gyflawni hynny. Cam cyntaf y prosiect yw sicrhau bod y cnwd wedi sefydlu yn dda a bod samplau llawn o bridd wedi eu cymryd o'r cae cnwd cyfan a'r glaswelltir cyfagos i wirio bod y pH a'r P a K yn eu lle. Yna bydd y cae yn cael ei aredig i greu gwely i'r hadau ac yna bydd y gymysgedd barlys/glaswellt yn cael ei ddrilio/hau cyn cael ei rowlio iddo sefydlu yn well.

Gostyngwyd cyfradd hadau'r barlys i 50kg/erw (124kg/ha) o haidd y gwanwyn a 14kg/erw (35kg/ha) a had glaswelltau er mwyn i'r glaswellt sefydlu yn dda ac rydym yn trin y barlys â dresin i'w ddiogelu rhag hoelion daear sydd yn risg wrth symud o wndwn tymor hir i rawn.

Byddwn yn anelu at yr arfer agronomig gorau pan fydd yn bosibl, ond yn cadw golwg fanwl ar yr holl wariant gan gynnwys llafur mewn cymhariaeth ag ansawdd a swmp y cnwd a gymerir.



Sicrhau'r allbwn bîff mwyaf oddi ar laswellt

Lisa Roberts, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Yn sicr glaswellt yw'r porthiant rhataf i dda byw ar £60/t o Gynnwys Sych (tDM) mewn cymhariaeth â silwair glaswellt da ar tua £120/tDM neu ddwysfwyd ar hyd at £270/tDM. Ond rhaid ei dyfu, ei reoli a'i ddefnyddio yn effeithlon er mwyn gwneud y mwyaf ohono. Mae cael cydbwysedd rhwng y cyflenwad o laswellt â'r galw gan y da byw yn allweddol ar gyfer system lwyddiannus. Gall symud o system stocio sefydlog i bori padogau bron â dyblu'r cynnyrch glaswellt os caiff ei reoli yn iawn, gan olygu bod y seilwaith newydd fel ffensys a chafnau dŵr yn fuddsoddiad gwerth ei wneud.

Cynnyrch posibl o wahanol strategaethau pori:

STRATEGAETH	CYNNYRCH BLYNYDDOL (t DM/ha)	DEFNYDD (%)	CYNNYRCH Y GELLIR EI DDEFNYDDIO (t DM/ha)	CANRAN Y CYNNYDD
Stocio sefydlog	8.5	50	4.3	
Cylchdro	10.2	65	6.6	56%
Padogau	10.2	80	8.2	92%

(Ffynhonnell: AHDB, 2016)

Un ffermwr sydd wedi buddsoddi tua £15,000 ar seilwaith pori yw ffermwr bîff y flwyddyn 2012, James Evans o Swydd Amwythig. Cred y bydd y buddsoddiad wedi talu amdano ei hun cyn pen dwy flynedd, gydag amcangyfrif o allbwn gros o £1,800/ha o floc pori cylchdro 28 hectar (ar sail cyflawni 900kg pwysau byw/ha ar £2/kg).

Ail-hadwyd y bloc 28 hectar gyda chymysgedd o hadau a meillion gwyn a'i rannu yn badogau y mae'r gwartheg yn symud o'u cwmpas bob 2-3 diwrnod gan ddibynnu ar y tyfiant. Symudodd y fferm gyfan o 34 cae i 77 trwy ddefnyddio ffensys trydan sydd wedi gwella'r rheolaeth pori yn sylweddol. Dan y drefn bori newydd, mae'r cyfnod dan do yn y gaeaf wedi ei leihau i dan dri mis gyda gostyngiad o 50% yn y gwellt a'r silwair a ddefnyddir.

Mae'r bustych yn cael eu pesgi ar borthiant yn 16 i 18 mis oed ac mae heffrod magu hefyd yn cael porthiant a silwair ar ôl diddyfnu. Gwerthir yr heffrod yn 14 mis yn pwyso tua 400kg. Rhoddir silwair meillion coch i'r teirw magu a chnwd cyfan ar ôl eu diddyfnu ac maent yn cael pori yn flwyddi nes y cânt eu gwerthu.

Os hoffech chi ddysgu mwy am system ffermio James Evans a sut mae'n gwneud y mwyaf o allbwn bîff oddi ar laswellt, mae gennym gyfres o ddigwyddiadau wedi'u trefnu yn ystod mis Mai a Mehefin. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.



GWASANAETHAU IECHYD ANIFEILIAID CYSWLLT FFERMIO

Beth all Cyswllt Ffermio ei gynnig?

Mae gennym ni ystod o **ddigwyddiadau a gweithgareddau** sydd wedi'u hanelu at ddarparu gwybodaeth y gall ffermwyr a choedwigwyr ei rhoi ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. **Am restr lawn o'r digwyddiadau sydd i ddod, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'n Canolfan Wasanaeth ar 08456 000 813.**

Cyrsiau hyfforddiant achrededig: cyllid o 80% ar gael i bob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: Trimio Traed Gwartheg; Defnydd Diogel o Ddip Defaid; Defnydd Diogel o Feddyginiaeth Filfeddygol; Technegau Ŵyna, a Chneifio Defaid. **Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol am ragor o fanylion.**

Ystod o gyrsiau e-ddysgu: ar gael am ddim ar wefan Cyswllt Ffermio. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: Goroesiad Perchyll - Bwrw Perchyll; Cloffni mewn Gwartheg; Clafr mewn Defaid, a Llyngyr yr Iau mewn Gwartheg.

Gweithdai Hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid: rhwng milfeddygon a ffermwyr yn ymwneud â materion iechyd. Mae'r gweithdai'n cynnwys: Afiechyd Johne; Lleihau Colledion Cyn ac Ar ôl Ŵyna; Dolur Rhydd Firysol Buchol (BVD); Rheoli Parasitiaid mewn Defaid; Twbercwlosis Buchol (TB); Cynllunio Iechyd; Lleihau Ymwrthedd i Wrthfiotigau ac Anthelmintigau, a Lleihau Mastitis mewn Gwartheg Llaeth. **Cysylltwch â Lantra ar 01982 552 646 neu NADIS ar contact@nadis.org.uk**

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda milfeddygon ledled Cymru i gynnig gwasanaethau samplu/profi wedi'u hariannu'n rhannol. **Mae enghreifftiau o wasanaethau samplu/profi yn cynnwys:** Ffrwythlondeb yr Hwrdd neu'r Tarw; Cyfrif Wyau Ysgarthol (FEC) a Phrofi Gwaed. **Am ragor o fanylion, cysylltwch â Gwenan Jones ar 01970 636 296 neu gwenan.jones@menterabusnes.co.uk**

Clinigau Defnyddio Meddyginiaeth yn Effeithiol: cyfle i adolygu defnydd o feddyginiaeth ar y fferm neu drafod materion iechyd anifeiliaid penodol gyda'ch milfeddyg lleol. **Ewch i'n gwefan neu ffoniwch ein Canolfan Wasanaeth ar 08456 000 813.**

Terfyn amser i ymgeisio ar gyfer y clinig 31/07/2019

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu nifer o **brosiectau ar ffermydd** gan gynnwys: Lleihau'r Defnydd o Wrthfiotigau; Therapi Buchod Sych Dethol; Rheoli Parasitiaid; Cynllunio Iechyd a Gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud ag Iechyd a Lles. **Am ragor o fanylion ynglŷn â phrosiectau yn eich ardal, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol.**

Datblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes

- gall Cyswllt Ffermio eich helpu bob cam o'r ffordd

Trwy Gymru gyfan, mae'r busnesau fferm a choedwigoedd mwyaf blaengar yn defnyddio'r ystod eang o gyrsiau hyfforddi wedi eu hachredu, y cyfan wedi eu hariannu hyd at 80%, sydd ar gael i fusnesau a gofrestrwyd gyda Cyswllt Ffermio. Mae tua 60 o wahanol gyrsiau i ddewis o'u plith, yn cael eu cyflwyno trwy ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd.

Mae'r ffenestr ymgeisio am gyrsiau sgiliau ar agor YN AWR a bydd yn cau am 17:00 ar Ddydd Gwener, 28 Mehefin 2019.

Cyrsiau gwella busnes (wedi eu hariannu hyd at 80%) yn cynnwys:

- Cadw llyfrau, TAW a Sicrhau bod Treth yn Ddigidol (MTD)
- Deall eich Cyfrifon a'ch Cyfriflenni Ariannol
- Marchnata eich busnes
- Cynllunio i arallgyfeirio neu fenter newydd ar y fferm

Cyrsiau gwella sgiliau technegol (wedi eu hariannu hyd at 80%) yn cynnwys:

- Sgiliau ymarferol ar gyfer plygu perthi
- AI DIY
- Trimio traed gwartheg (Sylfaenol ac Uwch)
- Rheoli tyrchod
- Paratoi ar gyfer Rheoliadau IPPC (Dofednod)
- Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng

Cyrsiau peiriannau ac offer (wedi eu hariannu hyd at 40%) yn cynnwys:

- Llif gadwyn
- Peiriant telesgopig ar dir garw
- Tractor
- ATV
- Torwyr a thrimwyr gwrychoedd
- Peiriannau sglodion pren

Bydd angen i fusnesau cofrestredig sy'n dymuno ymgeisio am hyfforddiant gyda chymhorthdal yn ystod y ffenestr ymgeisio bresennol gwblhau Cynllun Datblygu Personol ar-lein cyn cyflwyno cais am gyllid.

Am ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio, rhestr o'r holl gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio, rhestr o ddarparwyr yr hyfforddiant a'r holl ddewisiadau hyfforddi TG, iechyd anifeiliaid ac e-ddysgu sydd wedi eu hariannu yn llawn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio neu ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813. Fel arall, mynnwch air â'ch Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio lleol.

Mae dysgu sut i ddefnyddio beic pedair olwyn yn ddiogel yn sgil allweddol i fugail ifanc yng Ngogledd Cymru

Mae'r ffermwr ifanc, Ilan Hughes (25 oed) yn treulio'r rhan fwyaf o'i oriau yn gofalu am 600 o famogiaid mynydd Swaledale sy'n cael eu cadw ar ucheldir Stad Rhug yn Sir Ddinbych, sy'n 6,000 erw i gyd.

Mae Ilan yn gweithio fel bugail amser llawn i un o fentrau ffermio mwyaf a mwyaf amlwg Cymru, y mae eu cynnyrch organig byd-enwog yn cael ei gyflenwi i brynwyr o bwys trwy Ewrop i gyd.

Mae'r busnes yn rhoi diogelwch ei weithwyr yn ganolog i'r fenter. Llynedd, fe aeth Ilan ar gwrs hyfforddi deuddydd gan Cyswllt Ffermio yng Ngholeg Cambria Llysfasi, i ddysgu sut i leihau'r risg o ddamweiniau wrth ddefnyddio'r beic modur gyda'r llwythi a'r offer cysylltiedig o'i ôl.

"Roedd sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda ac yn addas i'r diben bob amser yn rhan fawr o'r hyfforddiant, felly dwi'n gwirio pwysedd y teiars, y brêcs, lefelau'r olew a'r throtl yn wythnosol o leiaf a bob amser cyn mynd yn uwch neu am fwy o bellter.

"Fe wnaethon ni dreulio amser yn dysgu sut i leihau'r risg o droi drosodd, yn arbennig ar lechweddau neu dir anwastad ac am bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw lwythi fel polion ffens neu borthiant yn cael eu gosod i gadw cydbwysedd," dywedodd Ilan.

Mae'r ffenestr ymgeisio ar gyfer sgiliau ar gael nawr tan 17:00 ddydd Gwener 28 Mehefin 2019. Gallwch ymgeisio am gyllid o hyd at 80% tuag at gyrsiau hyfforddiant achrededig Cyswllt Ffermio. Os ydych chi'n cofrestru am y tro cyntaf, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813 cyn 17:00 ddydd Llun 24 Mehefin.

DECHRAU FFERMIO
START TO FARM

Arloesedd, ysbrydoliaeth a chyngor ymarferol ar gyfer entrepreneuriaid sy'n edrych i ddechrau busnes fferm eu hunain.

Dydd Mawrth 4 Mehefin 2019
Celtic Manor Resort, Casnewydd, NP18 1HQ

Nod y digwyddiad undydd newydd hwn i ddarpar-entrepreneuriaid amaethyddol yw dwyn ffermwyr y dyfodol o **Gymru, Lloegr**, **yr Alban** a **Gogledd Iwerddon** at ei gilydd i rannu syniadau, arfer gorau ac arloesedd.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys:

- Cyfarwyddyd ariannol a chyfreithiol ymarferol
- Trosolwg o fynediad tir a modelau busnes
- Siaradwyr i'ch ysbrydoli
- Cyfleoedd i rwydweithio
- Sesiynau gweithdy ymarferol
- Trafodaethau ar bolisïau'r dyfodol

Hannah Jackson
Mae Hannah wedi ennyn parch y diwydiant ffermio. Yn 2018, cyrhaeddodd rownd derfynol y gystadleuaeth genedlaethol Ffermwr Ifanc y Flwyddyn. Mae hi'n llysgennad prysur i'r diwydiant ffermio ac, ar hyn o bryd, mae hi ar y panel beirniadu cenedlaethol ar y Rhaglen NFU Farmvention, sy'n ceisio cefnogi ysgolion i ymddiddori yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu.

Cody Wood
Cychwynnodd Cody gyda dim ond $1200. O fewn 10 mlynedd, heb unrhyw gefndir teuluol mewn ffermio da byw, dim tir na seilwaith, mae wedi adeiladu nifer o fusnesau ffermio llwyddiannus ac arloesol - nid yn unig yn ei Oregon brodorol, ond hefyd fwy na 600 milltir i ffwrdd yn California.

Nifer gyfyngedig o leoedd i bob gwlad. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail cyntaf i'r felin ac angen. I archebu eich lle, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio: 08456 000 813.

BŴTCAMP BUSNES

MYNNWCH EICH LLE YN Y BYD AMAETH

- A ydych chi'n chwilio am lwybr i mewn i amaeth?
- A oes gennych chi'r hyn sydd arnoch ei angen i gystadlu am y cyfleoedd?
- Beth sydd angen i chi ei wneud i sicrhau tenantiaeth eich breuddwydion neu fenter ar y cyd?

Cwrs preswyl dwys yw Bŵtcamp Busnes Cyswllt Ffermio a ddyluniwyd i roi'r hyder, sgiliau a'r ysgogiad i newydd-ddyfodiaid i amaeth fanteisio ar gyfleoedd, datblygu busnesau effeithlon ac adeiladu gyrfa lwyddiannus. Rhoddir pwyslais ar fentrau ar y cyd a ffermio cydweithredol a bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan gofrestru gyda'r rhaglen Mentro.

Mae holl elfennau'r Bŵtcamp Busnes wedi eu hariannu yn llawn. Rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan roi ymrwymiad 100% trwy fynd i bob sesiwn.

SESIWN 1

Dydd Mercher 12 Mehefin – Dydd Gwener 14 Mehefin | Gogledd Cymru

SESIWN 2

Dydd Iau 5 Medi – Dydd Sadwrn 7 Medi | De Cymru

I ymgeisio am le ar y Bŵtcamp Busnes, ewch i dudalennau Mentro ar wefan Cyswllt Ffermio a chwblhewch broffil Ceisiwr. Os ydych wedi cofrestru eisoes fel Ceisiwr, siaradwch â'ch Swyddog Mentro.

Swyddog Mentro Gogledd Cymru
Gwydion Owen
gwydion.owen@menterabusnes.co.uk
01745 770039

Swyddog Mentro De Cymru
Delyth Jones
delyth.jones@menterabusnes.co.uk
01970 631422



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

A all profion genomig gynyddu'r gwelliant genynnol a'r elw ariannol yn y fuches laeth?

Bwriad y prosiect yw ceisio ymchwilio i fanteision defnyddio technoleg sgrinio genetig yn hytrach na chyfartaledd rhieni wrth geisio gwella'r bridio mewn buchesi llaeth. Mae profion genomig wedi bodoli ers rhai blynyddoedd erbyn hyn gyda llawer o ffermwyr yn dewis teirw ifanc sydd wedi cael prawf genomig yn eu rhaglenni bridio (mae dros 70% o'r holl werthiannau semen gwartheg du a gwyn yn y Deyrnas Unedig yn rhai genomig). Nid yw profion genomig i wartheg benyw yn gyffredin eto ac mae'n gost newydd i'r ffermwr ei hystyried.

Mae'r wyth fferm sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn gobeithio y bydd y gwelliant yng nghywirdeb y wybodaeth genomig yn:

...rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt o botensial genomig eu stoc ifanc a gwybod pa fath o deirw i'w defnyddio arnynt.

...dynodi pa anifeiliaid yw'r rhai gwaelaf a'u bridio gyda theirw bîff neu eu gwerthu fel heffrod dros ben.

...gadael iddynt wneud gwell penderfyniadau fydd yn arwain at welliant yn y buchesi.

DIWEDDARIAD Y PROSIECT

Mae'r profion genomig ar gyfer y prosiect hwn yn costio £25 +TAW am werthusiad £PLI genomig. Mae profion eraill am enynnau enciliol ar gael, e.e. Kappa Casein, Beta Casein, Ffactor coch a di-gorn am gost ychwanegol.



Sylwer: Petai canlyniadau genomig yn cyfateb i gyfartaledd y rhiant, byddai'r pwynt ar gyfer yr heffer honno yn eistedd ar hyd y llinell letraws ar y graff. Ar gyfer y prosiect hwn defnyddir £200 PLI fel y terfyn damcaniaethol ar gyfer bridio anifeiliaid fel stoc cyfnewid. Byddai pob heffer dan £200 PLI yn cael ei bridio gyda tharw bîff neu eu gwerthu.

Manylion y Graff PLI Genomig v Cyfartaledd Rhiant

Nifer yr heffrod	Lleoliad ar y graff	Beth mae hyn yn ei olygu o ran rheoli buches fasnachol?
174	2	Ar gyfer yr heffrod hyn mae'r cyfartaledd rhieni a'r prawf genomig wedi eu dynodi yn gywir fel rhai sydd dros £200 PLI ac y dylid eu defnyddio i fridio gwartheg cyfnewid.
37	3	Cadarnhaodd profion genomig bod yr heffrod hyn dan £200 PLI ac y dylent gael eu croesi gyda tharw bîff neu eu gwerthu.
61	1	Trwy ddefnyddio PTA yn unig, byddai'r heffrod yma wedi cael eu defnyddio i fridio stoc cyfnewid, gan arafu'r gwelliannau yn y fuches. Dynododd profion genomig yn gywir bod yr heffrod hyn dan £200 PLI ac y dylent gael eu croesi gyda tharw bîff neu eu gwerthu.
15	4	Trwy ddefnyddio PTA yn unig, byddai'r heffrod yma wedi cael eu gwerthu neu eu croesi â tharw bîff. Mae genomeg yn awr wedi dynodi yn gywir bod yr heffrod yma dros £200 PLI ac y dylid eu hystyried ar gyfer bridio stoc cyfnewid.

Wrth ganolbwyntio ar y Mynegai Oes Broffidiol (£PLI), gan ei fod yn cynnwys nodweddion iechyd a chynhyrchiant, y gwahaniaeth ar gyfartaledd rhwng Cyfartaledd Rhiant heffer a'r canlyniad genomig oedd -£30. Ond, roedd heffrod y gwnaeth eu £PLI ostwng o £300 ac un arall a gynyddodd o £399, sy'n dangos pwysigrwydd profion genomig i ddethol heffrod i'w bridio. Mae gwahaniaethau yn ddisgwyliedig rhwng cyfartaledd rhieni a chanlyniadau genomig gan mai dim ond 35% yn gywir yw cyfartaledd rhieni mewn cymhariaeth â chanlyniadau genomig sydd rhwng 65 a 70%.

Yn ôl y dadansoddiad o'r canlyniadau genomig a'r terfyn damcaniaethol o £200 PLI, roedd 76 o heffrod wedi eu dewis i fridio gyda tharw bîff neu semen llaeth yn anghywir. I'r wyth fferm yn y prosiect, mae hyn wedi tanlinellu pwysigrwydd defnyddio profion genomig ar gyfer unrhyw welliannau i iechyd a chynhyrchiant y fuches. Mae'n bwysig cofio bod rheoli buches hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu llawer at berfformiad y fuches. Dim ond hyn a hyn o'r ffordd y gall geneteg fynd â chi; yr amgylchedd ar y fferm a'r rheolaeth ar y fuches sy'n sicrhau bod yr anifeiliaid yn cyflawni eu potensial genynnol.

Bydd y prosiect yn monitro'r heffrod wrth iddynt loea ac yn cofnodi'r cynnyrch llaeth (litrau a solidau), y cyfrif celloedd, a'r cyfraddau gwaredu hyd ddiwedd eu llaethiad cyntaf. Yna bydd cymhariaeth yn cael ei gwneud rhwng y canlyniadau genomig â'r cyfartaledd rhieni i gymharu pa ganlyniad genynnol sydd fwyaf cywir wrth ragweld perfformiad yn y dyfodol.

NODWCH Y DYDDIAD

18/19 MAI 2019

Gŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad CAFC

Ymunwch â Cyswllt Ffermio yng Ngŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad CAFC. Bydd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ac Arallgyfeirio. Bydd Menter Moch Cymru a Hybu Cig Cymru hefyd yn ymuno â Cyswllt Ffermio yn y digwyddiad. Byddwn wedi ein lleoli yn yr adran Foch ac yn Neuadd De Morgannwg

13 MEHEFIN 2019

Digwyddiad Moch a Dofednod

Bydd arbenigwr y farchnad yn darparu diweddariad ar dueddiadau'r farchnad ac unrhyw newidiadau posib y dyfodol ar gyfer y diwydiant moch a dofednod.
Dofednod 09:30-14:00
Moch 12:30 - 17:00
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Cath Price
07896 996 841 cath.price@menterabusnes.co.uk

20 MEHEFIN 2019

Merched Mewn Amaeth 2019 - Blwyddyn Darganfod

Bydd teithiau yn cychwyn o Gaernarfon, Cerrigydrudion, Ewloe (Sir y Fflint), Aberhonddu, Rhydaman ac Arberth.
Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Cyswllt Ffermio. #amaethhi

26 MEDI 2019

Sioe Arallgyfeirio ac Arloesedd Cymru

Digwyddiad newydd a chyffrous ar gyfer busnesau fferm, coedwigwyr a phobl wledig sy'n chwilio am syniadau ar gyfer arloesi ac arallgyfeirio i wella eu busnesau ac i ddenu ffrydiau incwm newydd i'w busnesau presennol.

Gweithdai Olyniaeth
Dechreuwch y Sgwrs

Siaradwr gwadd: Sian Bushell, Sian Bushell Associates

- *Pam fod angen i ffermwyr a choedwigwyr gynllunio olyniaeth*
- *Gofyn am gefnogaeth ac arweiniad annibynnol*
- *Trosglwyddo'r asedau, trosglwyddo'r cyfrifoldeb*
- *Cefnogi'r genhedlaeth nesaf*

Estynnir gwahoddiad i chi ac aelodau o'ch teulu fynychu un o'r cyfarfodydd agored canlynol a fydd yn eich cynorthwyo i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac ystyried gofynion y teulu yn ogystal â'r fferm.

DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
18/06/2019	19:30 - 21:30	Clwb Rygbi Aberteifi, Ceredigion SA43 1PH
19/06/2019	14:00 - 16:00	White Hart Inn, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6RS
19/06/2019	19:30 - 21:30	Pafiliwn Rhyngwladol, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3SY
25/06/2019	14:00 - 16:00	Gwesty'r Royal Oak, Cross, Y Trallwng, Powys SY21 7DG
25/06/2019	19:30 - 21:30	Holt Lodge, Wrecsam LL13 9SW
26/06/2019	14:00 - 16:00	Galeri Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SQ

I archebu'ch lle, ffoniwch Del Evans ar
01970 600 176
neu anfonwch e-bost at
delyth.evans@menterabusnes.co.uk

#dechreuwchysgwrs

Amserlen Digwyddiadau

Sioe Deithiol Rheoli Llyngyr	
22/05/2019 09:30 - 14:00	Marchnad Da Byw Rhaglan, Rhaglan, Sir Fynwy NP15 2BH
Lee Price - 07985 379 913 *lee.price@menterabusnes.co.uk*	

Sicrhau'r allbwn bîff gorau oddi ar laswellt	
22/05/19 18:00 - 20:00	Fferm Penrallt, Llantood, Aberteifi SA43 3NU
23/05/19 14:30-16:30	Trefnant Hall, Berriew, Y Trallwng SY21 8AS
05/06/19 18:00 - 20:00	Dairy Farm, Rhaglan, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 2DF
06/06/19 14:30-16:30	Maes Tyddyn Isaf, Clawdd Newydd, Rhuthun LL15 2NH
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio *08456 000 813*	

Profi Ffrwythlondeb Tarw	
21/05/2019 11:00 - 14:30	Gelli Aur, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA38 8NJ
Abigail James - 07399 970 988 *abigail.james@menterabusnes.co.uk*	

Rheoli mamogiaid ac ŵyn wedi eu diddyfnu ar system bori cylchdro	
27/05/2019 14:00 - 17:00	Llys Dinmael Isaf, Maerdy, Sir Ddinbych LL21 0PA
Rhys Davies - 07985 379 880 *rhys.davies@menterabusnes.co.uk*	

Cyflwyniad i Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd wedi'i Reoli	
13/06/2019 19:30 - 21:30	The Plough Inn, St Asaph, Denbighshire LL17 0LU
Debbie Handley - debbie.handley@menterabusnes.co.uk	

Ffermio Defaid Proffidiol gyda Murray Rohloff	
10/06/2019 11:00 - 13:00	Cefn Llan, Llangamarch, Powys LD4 4AA
11/06/2019 11:00 - 13:00	Pwll-y-Wrach, Tregolwyn, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7NJ
12/06/2019 18:30 - 21:00	Fferm Gilfach, Llanbedr Felffre, Sir Benfro SA67 8TP
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio *08456 000 813*	

Silwair Aml-doriad	
14/06/2019 10:30 - 13:30	New Dairy Farm, Sain Ffraid, Casnewydd NP10 8SF
Imogen Ward - 07985 379 819 *imogen.ward@menterabusnes.co.uk*	

Gwella rheolaeth tir pori a isadeiledd y fferm	
18/06/2019 11:00 - 15:00	Fedw Arian Uchaf, Y Bala, Gwynedd LL23 7SB
Dafydd Owen - 07985 379 903 *dafydd.owen@menterabusnes.co.uk*	

Sefydlu menter cyfoes pigo ffrwythau meddal	
26/06/2019 14:00 - 16:00	Scurlage Farm, Scurlage, Reynoldston, Y Gŵyr, Abertawe SA3 1BA
Dr Delana Davies - 07811 261 628 *delana.davies@menterabusnes.co.uk*	

CYMORTHFEYDD (09:00 - 17:00) Apwyntiad 1 awr		
Cymhorthfa Olyniaeth	23/05/2019	Llanymddyfri
	05/06/2019	Hwlffordd
Cymhorthfa Gynllunio	11/06/2019	Hermon
Cymhorthfa Olyniaeth	19/06/2019	Llandysul
Cymhorthfa Gynllunio	26/06/2019	Llandeilo
Helen Lewis - 01970 631 425 *helen.lewis@menterabusnes.co.uk*		

Gweithdai Cynllun Datblygu Personol (PDP)

Dyddiad	Lleoliad	Amser
21/05/19	Coleg Ceredigion College, Aberteifi SA43 1AB	14:00 - 21:00
22/05/19	The Purple Badger, Llanrhidian, Abertawe SA3 1EU	10:00 - 16:00
	Coleg Gwent, Campws Brynbuga NP15 1XJ	17:30 - 19:30
23/05/19	Lantra, Maes Y Sioe Frenhinol LD2 8WY	10:00 - 16:00
03/06/19	Cyngor Sir Fôn, Llangefni LL77 7XA	16:00 - 20:00
06/06/19	Coleg Llandrillo, Llandrillo-yn-Rhos LL28 4HZ	16:00 - 20:00
13/06/19	Bloomfield House Community Centre, Arberth SA67 7ES	13:00 - 20:00
	Clwb Golff Y Bala, Penlan, Y Bala LL23 7YD	16:00 - 20:00
	Swyddfa Menter a Busnes, Aberystwyth SY23 3AH	14:00 - 21:00
19/06/19	Coleg Gwent, Campws Brynbuga NP15 1XJ	17:30 - 19:30
25/06/19	Ysgol Bro Teifi, Llandysul SA44 4JL	16:00 - 21:00
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio - 08456 000 813		

Mae'r holl wybodaeth yn gywir adeg argraffu